## P-04-525 Rheolaeth Gynllunio a r Gymraeg

**Geiriad y ddeiseb**:

Yr ydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailgyflwyno'r cyllid sy'n ofynnol ar gyfer Gwobrau CREST yng Nghymru, ac rydym am i'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol gydnabod gwerth Gwobrau CREST i addysg gynradd ac uwchradd, a bod y cyllid sy'n ofynnol ar gyfer Gwobrau CREST yn parhau.

**Gwybodaeth ychwanegol**:

Cynllun grant sy'n seiliedig ar brosiectau yw Gwobrau CREST, ar gyfer gwaith ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (pynciau STEM). Mae'n cysylltu myfyrwyr â dysgu sy'n seiliedig ar y cwricwlwm. Y llynedd, roedd 30,000 wedi cymryd rhan yn y cynllun Gwobrau CREST yn y DU, gan gynnig cyfleoedd i bobl ifanc rhwng 5 ac 19 oed ymchwilio i brosiectau yn y byd o'u cwmpas mewn dull cyffrous. Rhoddwyd dros 10% o Wobrau'r DU i ddisgyblion yng Nghymru. Mae llwyddiant y cynnydd yn nifer y Gwobrau CREST yng Nghymru wedi'i gyflawni gyda chyllid a roddwyd gan Lywodraeth Cymru (yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol) i gydgysylltu a chynyddu'r gweithgareddau yn ysgolion Cymru. Mae'r arian hwn wedi golygu bod modd cynnig y cynllun yn ddwyieithog, cyfrannu at ffi gofrestru'r disgyblion, rhoi grantiau, a darparu strwythurau ategol eraill drwy'r cynllun Gweld Gwyddoniaeth. Mae Gwobrau CREST wedi dod â chryn fudd i ysgolion, a bydd y disgyblion a'r staff addysgu, fel ei gilydd, yn teimlo'r golled yn uniongyrchol pe byddai'r cyllid yn cael ei dynnu'n ôl. Mae Gwobrau CREST yn cael eu cydnabod gan holl Brifysgolion y DU, ac maent yn darparu tystiolaeth gadarn o ddata cyd-destunol.

**Prif ddeisebydd:** See Science - British Science Association

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 21 Ionawr 2014

**Nifer y llofnodion**: 210